Hawdd ei Ddeall

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cronfa Sefydlogi i Unigolion

Arian i gefnogi pobl sydd yn gweithio yn y celfyddydau drwy coronafeirws



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **"COVID-19: Cefnogaeth i Unigolion drwy'r Gronfa Sefydlogi"**

**Ebrill 2020**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rhywun rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi'i ysgrifennu mewn blwch o dan y gair.




Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 25**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda â:



**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma........................................................2**

**Y Gronfa Sefydlogi.......................................................................4**

Pwy sydd yn gallu gwneud cais?.................................................5

Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?........................................6

Dyddiadau pwysig........................................................................8

**Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais?.......................................9**

Am beth dydy'r arian yma ddim yn gallu cael ei ddefnyddio.................9

**Beth fydd ein prif nodau ni ar gyfer yr arian yma?.........................12**

**Sut byddwn ni'n fyddwn ni yn gwneud ein penderfyniad ni?................13**

**Sut rydych chi'n gwneud cais?.....................................................15**

**Pa wybodaeth rydyn ni ei angen hangen gennych chi.........................18**

Manylion banc............................................................................20

**Help gyda'ch cais chi....................................................................21**

**Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi.................................23**

**Cwynion.......................................................................................24**

**Geiriau anodd...............................................................................25**

# Y Gronfa Sefydlogi




Arian ydy'r **Gronfa Sefydlogi** i gefnogi pobl sydd yn gweithio'n llawrydd yn y celfyddydau yn ystod yr argyfwng coronafeirws.

> Mae llawrydd yn meddwl gweithio i chi eich hun neu yn hunangyflogedig. Rydych chi'n gallu gwneud darnau bach o waith i gyrff fel gweithiwr llawrydd.



Rhaid i'ch gwaith chi fod yn **ddi-elw** to beer mwyn gallu defnyddio'r **Gronfa Sefydlogi**. Mae hyn yn meddwl gwaith sydd yn cael ei wneud er lles eraill, a dim i wneud arian yn unig.




Rydych chi'n gallu gwneud cais am unrhyw swm rhwng £1000 a £10,000.




Mae'r arian yma ar gyfer gwaith sydd yn gorffen o fewn 6 mis o gael yr arian.




Mae llawer o bobl wedi cael eu heffeithio gan coronafeirws. Mae'n bwysig bod yr arian yma yn cael ei roi i'r bobl sydd mewn angen fwyaf.



Er enghraifft, pobl sydd ddim yn gallu cael llawer o help o bethau fel **Cynllun Cadw Swyddi** neu **Gynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig**. y Llywodraeth..



Os gwelwch yn dda meddyliwch yn ofalus am wneud cais am yr arian yma.




Rydyn ni hefyd eisiau cefnogi'r prosiectau gorau. Darllenwch y ddogfen yma yn ofalus os gwelwch yn dda. Os ydyn ni'n cael llawer o geisiadau fe fyddwn ni'n defnyddio'r rheolau yn y ddogfen yma i'n helpu ni i wneud penderfyniadau.

## Pwy sydd yn gallu gwneud cais?

**Mae'r arian yma yn agored i:**



- Artistiaid llawrydd. Efallai eich bod yn chi'n berson sydd yn ysgrifennu, dawnsio, yn gerddor, yn dylunio neu yn gwneud crefftau.



- Pobl sydd yn gweithio yn llawrydd i gefnogi celfyddydau mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, hyrwyddo gigiau (rhywun sydd yn cynnal digwyddiadau celfyddydol neu gerddoriaeth), cynhyrchydd theatr neu ddylunydd goleuo.



- Pobl sydd eisiau gweithio gydag eraill fel rhan o grŵp. Mae angen i 1 person wneud cais ar ran y grŵp. Dim ond unwaith y dylech chi wneud cais. Os ydych chi'n rhan o grŵp sydd hefyd yn gwneud cais, yna ddylech chi ddim gwneud cais fel unigolyn.



Rhaid i chi allu dangos inni eich bod chi'n gweithio yn llawrydd.



Os dydych chi ddim yn artist rhaid i chi allu esbonio sut mae eich gwaith chi'n cefnogi'r celfyddydau. A rhaid i hyn fod yn **ddi-elw**.

## Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?



- Pobl sydd  ddim work yn gweithio'n  llawrydd yn y sector celfyddydau di-elw.



- Cyrff.




- Pobl sydd yn ennill dros hanner eu harian nhw o waith sydd ddim yn llawrydd.



- Pobl sydd ddim yn gweithio yng Nghymru.



- Myfyrwyr.



- Pobl sydd yn gweithio mewn addysg.



- Unrhyw un dan 18 oed.

# Dyddiadau pwysig




Mae'r **Gronfa Sefydlogi** i unigolion yn agor **ddydd Gwener 29 Mai 2020**.




Rhaid i chi anfon eich cais aton ni erbyn **5 pm** d**dydd Llun 15 Mehefin 2020**.



Os ydyn ni'n cael gormod o geisiadau efallai bydd rhaid inni stopio cymryd ceisiadau cyn dd**ydd Llun 15 Mehefin 2020**.

# Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am unrhyw swm rhwng £1000 a £10,000. Rhaid defnyddio'r arian yma o fewn 6 mis.



Efallai eich bod chi'n gallu gwneud cais am arian ychwanegol os oes gennych chi anghenion ychwanegol. Am ragor o wybodaeth am hyn darllenwch **"Cronfa Sefydlogi i Unigolion – Cwestiynau Cyffredin"**.



Os ydych chi'n gwneud cais am swm uwch o arian fe fyddwn ni'n edrych yn ofalus ar eich cais chi. Y mwyaf o arian rydych chi'n gofyn amdano, y mwyaf o les ddylai fod gan eich prosiect chi i bobl a'r celfyddydau.

## Am beth dydy'r arian yma ddim yn gallu cael ei ddefnyddio

**Dydy'r arian yma ddim yn gallu cael ei ddefnyddio am:**



- Gwaith sydd â dim i'w wneud gyda'r celfyddydau.



- Gwaith sydd wedi digwydd yn barod. Neu sydd wedi dechrau cyn inni wneud penderfyniad am eich cais chi.



- Gwaith mewn ysgolion. Yn cynnwys gweithgareddau ar-lein i ddisgyblion. Fe fydd gennym ni gronfa arall i gefnogi'r math yma o waith.




- Ffioedd hyfforddi myfyrwyr a chostau astudio eraill.



- Dim ond i brynu offer newydd.



- **Hunangyhoeddi.** Mae hyn yn meddwl talu i wneud eich gwaith chi ar gael i'r cyhoedd gyda'ch arian eich hun.




- Digwyddiadau neu weithgareddau i godi arian.



- Prosiectau ffilm



- Gwaith sydd ddim yn gallu digwydd nawr oherwydd rheolau coronafeirws am aros gartref.



- Pobl sydd ddim yn gwneud o leiaf hanner eu gwaith nhw yn llawrydd.

# Beth ydy ein prif nodau ni ar gyfer yr arian yma?

Rydyn ni eisiau defnyddio'r arian yma i helpu 2 beth pwysig:



1. Cefnogi pobl i ddal i wneud gwaith da. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu dal i fynd ar ôl coronafeirws. Rydyn ni eisiau cefnogi prosiectau sydd yn gweithio mewn ffyrdd creadigol newydd oherwydd coronafeirws.



2. Cael rhagor o bobl o wahanol gefndiroedd, gwahanol leoedd a gyda gwahanol alluoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau. Rydyn ni eisiau cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Rydyn ni eisiau gweithio yn arbennig gyda phobl sydd yn **Ddu ac o Leiafrifoedd Ethnig**, yn fyddar ac yn anabl.




Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn inni hefyd. Rydyn ni eisiau i bobl allu cymryd rhan yn y celfyddydau yn eu dewis iaith nhw.



Does dim rhaid i chi wneud gwaith mae'r cyhoedd yn ei weld. Ond rydyn ni eisiau i chi ddangos eich bod chi wedi meddwl am y pethau yma yn eich cais chi.

# Sut byddwn ni’n gwneud ein penderfyniad ni

Fe fyddwn ni’n meddwl am y pethau yma i’n helpu ni i wneud penderfyniadau:



- Pa mor ddifrifol ydy eich problemau arian chi. Mae angen i chi ddweud wrthyn ni am hyn yn eich cais chi.




- Pa mor bwysig ydy eich gwaith chi. Mae hyn yn gallu bod oherwydd ei fod e’n gelf mawr. Neu mae’n cefnogi pobl i fod yn greadigol.




- Pa mor dda mae eich gwaith chi yn ein helpu ni i ateb ein prif nodau ni.



- Sut mae eich gwaith chi o fudd i eraill, nawr ac yn y dyfodol.




- Pa mor dda ydy eich cynlluniau chi i ddefnyddio’r arian rydych chi’n ei gael ar gyfer gwaith



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y celfyddydau yng Nghymru yn cynrychioli pobl Cymru. Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr arian yma yn helpu pob math o gelfyddydau ac artistiaid.



Rydyn ni eisiau ceisiadau gan bobl sydd yn **Ddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig**. Neu bobl sydd yn fyddar neu yn anabl.



I'n helpu ni i wneud ein penderfyniadau ni fyddwn ni'n meddwl am y prosiectau eraill rydyn ni'n eu cefnogi i wneud yn siŵr ein bod ni'n cefnogi gwaith ar draws Cymru. Yn yr holl ffurfiau gwahanol o gelfyddyd.

# Sut i wneud cais?



1. Llanwch y ffurflen gais syml ar-lein yma os gwelwch yn dda: https://arts.wales/cy/cronfa-ymsefydlogi-i-unigolion

   Os nad ydych chi'n gallu cael y ffurflen am ryw reswm cysylltwch â ni os gwelwch yn dda ar grantiau@celf.cymru.



2. Pan fyddwn ni'n cael eich ffurflen gais chi fe fyddwn ni'n anfon e-bost atoch chi yn dweud ein bod ni wedi ei gael. Fe fydd yn cynnwys **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb**. Llanwch y ffurflen yma os gwelwch yn dda a'i hanfon yn ôl aton ni. Fyddwn ni ddim yn defnyddio'r ffurflen yma i'n helpu ni i wneud ein penderfyniadau ni. Mae hyn i'n helpu ni gyda'n hadroddiadau ni.



3. Fe fyddwn ni'n darllen yr wybodaeth rydych chi wedi ei rhoi inni. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n gweithio yn llawrydd yn y celfyddydau i chi allu cael arian o'r **Gronfa Sefydlogi**.




4. Efallai bydd angen inni gysylltu â chi os ydyn ni angen rhagor o wybodaeth.




5. Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni'n cysylltu â chi. Fe fyddwn ni'n gofyn i chi lenwi **Ffurflen Derbyn Dyfarniad** a **Ffurflen Manylion Banc**.



6. Pan rydych chi'n cael eich **Ffurflen Derbyn Dyfarniad** chi a'r **Ffurflen Manylion Banc**, ac rydyn ni wedi edrych ar eich manylion banc chi fe fyddwn ni'n anfon arian atoch chi. Fe fyddwch chi'n cael 90% o'r arian. Mae hyn bron y cyfan o'r arian.




7. Ar ddiwedd eich prosiect chi fe fydd angen i chi anfon **Adroddiad Cwblhau** - byr aton ni. Yna fe fyddwn ni'n rhoi gweddill yr arian i chi.

**Nodwch os gwelwch yn dda:**



Os dydy hi ddim yn glir eich bod chi'n gweithio yn llawrydd yn y celfyddydau, a'ch bod chi wedi colli arian oherwydd coronafeirws fyddwn ni ddim yn gallu eich cefnogi chi.



Fe fyddwn yn ateb pawb sydd wedi gwneud cais o fewn 4 wythnos o'r dyddiad cau. Os yn bosibl fe fyddwn ni'n dod yn ôl atoch chi'n fwy cyflym. Fe fyddwn yn dweud wrthych chi os ydy pethau yn cymryd mwy o amser am rhyw ryw reswm



Yn aml rydyn ni'n cael mwy o geisiadau nag rydyn ni'n gallu eu cefnogi. Felly mae'n debygol na fydd rhai ceisiadau da a diddorol yn cael arian.



Cyn dechrau eich cais chi darllenwch **"Cronfa Sefydlogi i Unigolion –– Cwestiynau Cyffredin"**.

Mae'r holl wybodaeth rydych chi ei angen i wneud cais yma: https://arts.wales/cy/cronfa-ymsefydlogi-i-unigolion.

# Pa wybodaeth rydyn ni ei hangen gennych chi

Rydyn ni angen gwybod:




- Eich manylion cyswllt. Os nad ydych chi wedi gwneud cais inni o’r blaen gan ddefnyddio ein cais ar-lein.



- Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar yr arian rydych chi’n ei gael o’ch gwaith llawrydd chi.



- Pa waith wedi’i **gyllido’n gyhoeddus** rydych chi wedi ei wneud o’r blaen.

Mae wedi’i **gyllido’n gyhoeddus** yn meddwl talu amdano fe gydag arian gan y cyhoedd. Mae’n gallu cael ei drefnu gan rywun fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.



- Am eich prosiect chi. Esboniwch beth rydych chi eisiau ei wneud. Dywedwch wrthyn ni am y syniad ar gyfer eich prosiect chi a pam rydych chi eisiau ei wneud e.




- Dyddiad dechrau a gorffen eich prosiect chi.



- Sut bydd eich gwaith chi'n ein helpu ni i ateb ein nodau ni o gefnogi gwahanol bobl o wahanol gefndiroedd i gymryd rhan yn y celfyddydau.



- Sut byddwch chi'n gwario'r arian. Defnyddiwch y **templed cyllideb** os gwelwch yn dda i wneud hyn.




- Sut rydych chi'n rheoli eich prosiect chi. Pa gynllunio rydych chi wedi ei wneud hyd yn hyn? Dywedwch wrthyn ni sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod eich prosiect chi'n digwydd yn ystod yr amser yma.




- Prawf bod gennych chi gyfrif banc yn eich enw chi. Rhaid i hyn fod yr un enw ag sydd ar eich cais chi.



- Sut bydd yr arian yma yn eich helpu chi. Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda sut bydd yr arian yma yn eich helpu chi neu eraill. Beth rydych chi'n gobeithio fydd yn digwydd oherwydd eich prosiect chi?

# Manylion banc




- Dim ond i gyfrif banc yn eich enw chi rydyn ni'n gallu talu. Rhaid i hwn fod yr un enw ag sydd ar eich cais chi.



- Rhaid i'ch cyfrif banc chi fod yn y DU.

- Fe fyddwn ni'n talu drwy **BACS**. Mae hyn yn meddwl y bydd yr arian yn mynd yn syth o'n cyfrif ni i'ch cyfrif chi. Mae hyn yn gallu cymryd hyd at 3 diwrnod.



- Rhaid i chi lenwi'r **Ffurflen Manylion Banc** a'i hanfon hi yn ôl aton ni. Hyd yn oed os ydych chi wedi cael arian gennym ni i'r un cyfrif o'r blaen.



Os gwelwch yn dda darllenwch **"Cronfa Sefydlogi i Unigolion – Cwestiynau Cyffredin"** os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill am hyn.

# Help gyda'ch cais chi



Cyn dechrau eich cais chi os gwelwch yn dda darllenwch **"Cronfa Sefydlogi, Cwestiynau Cyffredin":** https://arts.wales/cy/cronfa-ymsefydlogi-i-unigolion.




Fe fydd hyn yn rhoi'r holl wybodaeth rydych chi ei angen i wneud cais.



Atebwch y cwestiynau yn llawn, yn glir ac yn onest os gwelwch yn dda.




Os ydych chi'n rhoi gwybodaeth inni sydd yn anghywir neu ddim yn wir, efallai y bydd yn rhaid inni dynnu'r arian yn ôl oddi wrthych chi. Neu gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn chi.



Os ydych chi eisiau edrych i weld os ydych chi'n gallu cael arian o'r Gronfa Sefydlogi, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni os gwelwch yn dda gyda ni ar:




**E-bost:** grantiau@celf.cymru



**Gwefan:** https://arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni




**Twitter:** @Celf_Cymru



Fe fyddwn ni'n ateb cyn gynted ag rydyn ni'n gallu. Os ydych chi eisiau inni eich ffonio chi yn ôl, rhowch eich rhif inni. Fe fyddwn ni'n ffonio cyn gynted ag rydyn ni'n gallu.

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi



Rydyn ni'n credu bod gan bobl yr hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.




Os ydych chi eisiau dysgu rhagor am hyn ewch i'n gwefan ni os gwelwch yn dda: [https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/rhyddid-gwybodaeth](https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/rhyddid-gwybodaeth)




Oherwydd ein bod ni'n gorff cyhoeddus rhaid inni adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian yn ôl y gyfraith.



Mae hyn yn meddwl y bydd rhywfaint o'ch gwybodaeth chi efallai yn cael ei weld gan bobl eraill.




Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar y wefan Rhyddid Gwybodaeth: [https://cy.ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/](https://cy.ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/)




Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR (Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data).** Mae hyn yn meddwl nad ydy gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu heb eich caniatâd chi. Os nad oes deddf wedi cael ei thorri.

# Cwynion




Os nad ydych chi'n hapus gyda sut rydyn ni'n delio â'ch cais rydych chi'n gallu cwyno. Ewch i'n gwefan ni os gwelwch yn dda: https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion.




Dim ond os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni wedi delio â'ch cais chi'n iawn rydych chi'n gallu cwyno. Dydych chi ddim yn gallu cwyno i geisio newid ein penderfyniad ni am roi cyllid i chi neu beidio.

# Geiriau anodd

## Llawrydd

Mae llawrydd yn meddwl gweithio i chi eich hun neu yn hunangyflogedig. Rydych chi'n gallu gwneud darnau bach o waith i gyrff fel gweithiwr llawrydd.

## Gyllido'n gyhoeddus

Mae wedi'i gyllido'n gyhoeddus yn meddwl talu amdano fe gydag arian gan y cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan rywun fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.